# BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016-17

## Trosolwg o Amcanion a Chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin

**Jonathan Griffiths (Cadeirydd CWMPAS)**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Hamdden
Cyngor Sir Penfro

**CYNNWYS** Tudalen


- Cyflwyniad 3-4
- Aelodaeth 4-5
- Strwythur y Bwrdd 6-7
- Blaenoriaethau a Nodwyd ar gyfer 2016-17 8
- Sut cyflawnom yn unol ag amcanion CYSUR 9-11
- Sut cyflawnom yn unol ag amcanion CWMPAS 11
- Sut cyflawnom yn unol â Chyd-amcanion y Byrddau 12-14
- Gweithio'n gydweithredol â phobl neu gyrff eraill 14-16
- Gweithio'n gydweithredol â Byrddau Diogelu Rhanbarthol eraill 16
- Pryd a sut mae plant neu oedolion wedi defnyddio cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu 16-19
- I ba raddau y mae pob aelod o'r Bwrdd Diogelu wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Bwrdd 19-24
- Unrhyw geisiadau a wnaed gan y Bwrdd Diogelu i bersonau cymwys o dan A.137 (1) am wybodaeth benodol 24
- Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion 24
- Sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw arweiniad neu gyngor a roddwyd gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol 25
- Unrhyw wybodaeth neu ddysgu y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'u lledaenu, neu hyfforddiant y mae wedi'i argymell neu ei ddarparu 25-26
- Unrhyw themâu sydd wrth wraidd y ffordd y mae'r Bwrdd Diogelu wedi cyflawni ei swyddogaethau, yn ôl dadansoddiad o achosion yr ymdriniodd â nhw ac unrhyw newidiadau a roddodd ar waith o ganlyniad 26
- Asesiad o'r ffordd y mae'r Bwrdd Diogelu wedi defnyddio'i adnoddau 27
- Crynodeb o'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Bwrdd Diogelu i gyflawni deilliannau penodol 28

## CYFLWYNIAD

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn gweithredu o dan Ran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae llesiant ei dinasyddion yn ganolog i bolisi a deddfwriaeth gyfredol Llywodraeth Cymru. O fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae Llywodraeth Cymru yn ceisio diffinio a mesur llesiant ei dinasyddion mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol, llesiant emosiynol, llesiant cymdeithasol ac economaidd, addysg, hyfforddiant a hamdden, yn ogystal â pha mor dda y mae ei dinasyddion yn cael eu hatal a'u hamddiffyn rhag dioddef camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed. Felly mae'r angen i sicrhau bod dinasyddion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu hatal a'u hamddiffyn yn ddigonol rhag dioddef camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed yn swyddogaeth graidd ac yn gyfrifoldeb i Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru'n unigryw am ei fod yn gorchuddio ardal ddaearyddol fawr gan rychwantu dros hanner màs tir Cymru. Mae hyn ynddo'i hun yn cynnig heriau o fewn cyd-destun cyrraedd gofynion cymysgedd eang ac amrywiol o gymunedau. Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, fodd bynnag, yn falch iawn o'r bartneriaeth gref a'r diwylliant cydweithio y mae wedi'i sefydlu ar draws rhanbarth mor fawr. Dros y flwyddyn nesaf,mae wedi'i ymrwymo i gryfhau ac i atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn i ddiogelu a gwarchod aelodau mwyaf bregus ein cymunedau.

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu cymunedau Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys, gan weithio gyda'i gilydd yn gydweithredol ac mewn partneriaeth o fewn lleoliad amlasiantaethol. Mae'r Bwrdd yn anelu at godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu gydag aelodau'r cyhoedd ac yn darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein cymunedau lleol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gwirfoddol a statudol. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n rhoi eu hamser yn wirfoddol, mewn llefydd fel clybiau ieuenctid, canolfannau cymunedol a chlybiau chwaraeon yn ogystal â gweithwyr proffesiynol fel nyrsys, ymwelwyr iechyd, athrawon, swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion prawf.

Ymdrinnir â Chanolbarth a Gorllewin Cymru gan ddau chwaer Fwrdd Diogelu:

- **CWMPAS** [*Collaborative Working & Maintaining Partnership in Adult Safeguarding* / *Gweithio ar y Cyd a Chynnal Partneriaeth mewn Diogelu Oedolion]:* Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru; **a;**
- **CYSUR** [*Child & Youth Safeguarding, Unifying the Region* / *Diogelu Plant ac Ieuenctid, Uno'r Rhanbarth]:* Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Prif ffocws CWMPAS yw oedolion mewn perygl, er ei fod yn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â'i chwaer Fwrdd, CYSUR. Mae CWMPAS yn ymdrin â'r un ardal ddaearyddol â CYSUR ac yn gweithredu o dan yr un fframwaith deddfwriaethol. Ond ei brif ffocws yw diogelu plant a phobl ifanc a allai fod yn profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, o brofi esgeulustod a mathau eraill o niwed. Mae byrddau CYSUR a CWMPAS yn rhannu nifer o flaenoriaethau strategol a hefyd yn gweithio gyda'i gilydd drwy gynnal nifer o is-grwpiau'r byrddau ar y cyd.


Mae CWMPAS a'i aelodau yn ceisio cyflawni ei amcanion mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae ei strwythur yn cynnwys Bwrdd Gweithredol trosfwaol a nifer o Is-grwpiau lleol a rhanbarthol sy'n adrodd yn uniongyrchol i ac yn cyflawni swyddogaethau ar ran Bwrdd Gweithredol CWMPAS. Mae hyrwyddo materion diogelu a darparu cymorth i weithwyr proffesiynol yn cael eu cynorthwyo gan ddarparu hyfforddiant diogelu a datblygu polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol sy'n ceisio helpu i gefnogi ac arwain gweithwyr proffesiynol yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae gan CWMPAS fecanwaith i alluogi ymarferwyr i fyfyrio ar arfer proffesiynol a dysgu gwersi pan fydd oedolion sydd mewn perygl yn marw neu'n dioddef niwed difrifol drwy gynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

## AELODAETH

| Bwrdd Gweithredol CWMPAS | Bwrdd Gweithredol CYSUR |
|---|---|
| **Jonathan Griffiths** (Cadeirydd)<br>Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Hamdden, Cyngor Sir Penfro | **Jake Morgan** (Cadeirydd)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Anthony Griffiths** (Is-gadeirydd)<br>Uwch-arolygydd,<br>Heddlu Dyfed Powys | **Rhiannon Jones** (Is-gadeirydd)<br>Cyfarwyddwr Nyrsio,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Jake Morgan**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin | **Jonathan Griffiths**<br>Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Hamdden, Cyngor Sir Penfro |
| **Sue Darnbrook**<br>Cyfarwyddwr Strategol: Gofal, Diogelu a Ffordd o Fyw<br>Cyngor Sir Ceredigion | **Sue Darnbrook**<br>Cyfarwyddwr Strategol: Gofal, Diogelu a Ffordd o Fyw<br>Cyngor Sir Ceredigion |
| **Louise Barry**<br>Pennaeth Dros Dro Gwaith Cymdeithasol – Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys | **Louise Barry**<br>Pennaeth Dros Dro Gwaith Cymdeithasol – Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys |
| **Rhiannon Jones**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Anthony Griffiths**<br>Uwch-arolygydd,<br>Heddlu Dyfed Powys |
| **Avril Bracey**<br>Pennaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Caerfyrddin | **Stefan Smith**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Carys James**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Rhai a Gomisiynwyd, Cyngor Sir Ceredigion | **Elfed Hopkins**<br>Pennaeth Gwasanaethau Teuluoedd a Phlant, Cyngor Sir Ceredigion |
| **Jason Bennett**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Cyngor Sir Penfro | **Diane Beacroft**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Diogelu – dros dro, Cyngor Sir Penfro |
| **Jen Jeffries**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Cyngor Sir Powys | **David Johnston**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Diogelu – dros dro, Cyngor Sir Powys |

| | |
|---|---|
| **Christine Harley**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | **Christine Harley**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Deanne Martin**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru | **Deanne Martin**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| **Mandy Rayani**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Mandy Rayani**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Sian Passey**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio A Diogelu Nyrsio Corfforedig,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Sian Passey**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio A Diogelu Nyrsio Corfforedig,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Nicola Edwards**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Nicola Edwards**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Sonia Mason**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Sonia Mason**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Debbie Pachu**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru | **Karen Toohey**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Nikki Harvey**<br>Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | **Nikki Harvey**<br>Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **Hazel Lloyd-Lubran**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) | **Hazel Lloyd-Lubran**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |
| **Chris Harrison**<br>Cynrychiolydd rhanbarthol ar gyfer y Penaethiaid Comisiynu | **Steve Davis**<br>Cynrychiolydd rhanbarthol y Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid |
| | **Kate Evan-Hughes**<br>Cynrychiolydd rhanbarthol y Cyfarwyddwyr Addysg |
| | **Dr Ingrid Prosser**<br>Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant, PTHB |
| | **Dr Velupillai Vipulendran**<br>Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant, HDUHB |
| **Julie Breckon**<br>Rheolwr Busnes, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | **Julie Breckon**<br>Rheolwr Busnes, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru |

## STRWYTHUR Y BWRDD




Y Bwrdd Gweithredol:



Mae Bwrdd Gweithredol yn fwrdd rhanbarthol trosfwaol sy'n ceisio monitro a gwella gweithgarwch diogelu rhanbarthol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys uwch swyddogion o'r holl bartneriaid ac asiantaethau statudol allweddol (gweler y tabl aelodaeth uchod). Mae'r Bwrdd Gweithredol yn ceisio sicrhau ei fod yn darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd cryf i'w holl bartneriaid statudol ac mae'n gwneud hyn drwy nodi blaenoriaethau strategol blynyddol a chanlyniadau dymunol o ran gweithgarwch ac ymarfer diogelu. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cefnogi, arwain ac yn derbyn cyngor gan yr Is-grwpiau rhanbarthol.

Grwpiau Gweithredol Lleol:

Mae pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal Grwpiau Gweithredol Lleol (GGLl). Mae pwrpas, aelodaeth a strwythur y GGLl hyn yn adlewyrchu rhai'r Bwrdd Gweithredol. Ond prif nod y GGLl yw monitro a dadansoddi arferion diogelu yn lleol, yn hytrach nag yn rhanbarthol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, sy'n cadeirio'r grŵp, uwch reolwyr a swyddogion o asiantaethau statudol lleol, gan gynnwys Iechyd, yr

Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Mae GGLl yn ceisio gwella arferion diogelu yn lleol trwy drafod gweithgarwch diogelu lleol mewn amgylchedd agored a thryloyw, rhannu a dadansoddi data lleol a chynnal archwiliadau o ymarfer. Mae GGLl yn ceisio rhannu a chydnabod enghreifftiau o arferion diogelu da eto byddant yn herio asiantaethau yn broffesiynol ac yn eu dal i gyfrif pan fydd arferion diogelu yn disgyn yn is na'r safonau a ddisgwylir.

<u>Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Rhanbarthol</u>:
Mae'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion (AYO) ac Adolygiad Ymarfer Plant (AYP) yn ystyried atgyfeiriadau gan asiantaethau lle mae plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl naill ai wedi marw neu wedi dioddef amhariad sylweddol ar iechyd a datblygiad o ganlyniad i gam-drin ac esgeulustod. Mae'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion/Adolygiad Ymarfer Plant rhanbarthol yn ystyried gwybodaeth yn erbyn meini prawf a ddiffiniwyd o fewn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant & Chyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion' ac yn gwneud argymhelliad i Gadeirydd CYSUR neu CWMPAS ynghylch a oes canlyniadau dysgu wedi eu nodi ac a ddylid cynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion i ddysgu gwersi. Cyflawnir Adolygiadau Ymarfer gan grŵp aml-asiantaeth o weithwyr proffesiynol sy'n dadansoddi gwybodaeth ar y cyd, ac yn nodi unrhyw themâu ymarfer a gwersi i'w dysgu. Yna caiff yr adroddiad ei gyhoeddi fel Adolygiad Ymarfer Oedolion/Plant ar wefan y Bwrdd.

<u>Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol:</u>
Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau yn gweithredu ar y cyd ac mewn cysylltiad â Byrddau CWMPAS a CYSUR ill dau. Mae'r Is-grŵp hwn yn ceisio darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol trwy ddatblygu polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol. Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau lleol yn eu lle o fewn pob corff sy'n aelod. Un o amcanion allweddol y Bwrdd yn 2017/18 yw gweithio tuag at ddatblygu'r rhain yn bolisïau a gweithdrefnau rhanbarthol i helpu i hyrwyddo ymateb rhanbarthol mwy cyson i arfer diogelu.

<u>Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol</u>:
Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant hefyd yn gweithredu ar y cyd ac mewn cysylltiad â Byrddau CWMPAS a CYSUR ill dau. Mae'n ceisio cefnogi ac arwain y gwaith o gyflwyno hyfforddiant diogelu a dysgu ar draws y pedair ardal awdurdod lleol a sefydliadau sy'n asiantaethau partner. Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant yn gweithio'n agos gydag adrannau hyfforddi sefydliadol i sicrhau a hyrwyddo ansawdd a chysondeb hyfforddiant diogelu a darparu. Gall y grŵp gomisiynu hyfforddiant diogelu pwrpasol, arbenigol ar draws y rhanbarth ac mae'n gweithio'n agos gydag Is-grwpiau eraill fel yr Is-grŵp Adolygiad Arfer Oedolion/Adolygiad Arfer Plant er mwyn sicrhau bod unrhyw ganlyniadau dysgu a nodwyd o ganlyniad i Adolygiadau Ymarfer yn cael eu lledaenu i staff.



## BLAENORIAETHAU A NODWYD AR GYFER 2016-17

Ni chyhoeddodd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru gynllun blynyddol yn 2016, a defnyddiwyd cynllun busnes 3 blynedd a ddatblygwyd o 2013 i 2016 yn fframwaith ar gyfer cyflawni amcanion strategol a nodwyd yn ystod 2016-17. Cafodd cyfeiriad strategol y Bwrdd ei gryfhau ymhellach gan Adolygiad Annibynnol a gyflawnwyd gan yr ymgynghorydd, Rosie Rae, yn Rhagfyr 2015. Bu'r adolygiad hwn a'r argymhellion cysylltiedig yn sbardun allweddol ar gyfer gwella'r Bwrdd trwy gydol 2016.

Roedd y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2016 yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant
- Datblygu strategaeth a chynllun gweithredu rhanbarthol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant
- Cryfhau'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant a sicrhau bod y dysgu o unrhyw adolygiadau'n cael ei ledaenu'n amserol
- Datblygu brandio a logos y Bwrdd
- Cwblhau gwefan y Bwrdd
- Ymgymryd â dadansoddiad o anghenion hyfforddiant gweithlu amlasiantaeth
- Archwilio a gwella'r ffordd y gall plant a phobl ifanc ymwneud â'r Bwrdd
- Rhoi modelau ymarfer Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth (MASH) a Galwadau Cynadledda Cam-drin Domestig (DACC) ar waith yn y rhanbarth.

Roedd argymhellion yr Adolygiad Annibynnol yn cynnwys:

- Cryfhau a gwella trefniadau llywodraethu a strwythur presennol y Byrddau
- Gwella cyfathrebu a threfniadau adrodd rhwng y Bwrdd Gweithredol a'i Grwpiau Gweithredol Lleol ac Is-grwpiau Rhanbarthol
- Datblygu fframwaith perfformiad a sicrhau ansawdd rhanbarthol sy'n cynnwys rhaglen archwilio gynhwysfawr
- Datblygu dogfen trothwyon rhanbarthol i helpu sefydlu ymarfer mwy cyson ar draws y rhanbarth
- Gwella trefniadau a gallu cymorth busnes fel y gellir rhoi cymorth cyffredinol a chyson i Fwrdd datblygol CWMPAS (Diogelu Oedolion)

**Bwrdd Diogelu Iau CADW**:

Blaengynllunio ar gyfer gwaith CADW



## SUT CYFLAWNOM YN UNOL AG AMCANION CYSUR

### Camfanteisio'n rhywiol ar blant


- Cynhadledd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Mawrth 2016



Ym Mawrth 2016, cynhaliodd y Bwrdd Gynhadledd Ranbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, ym Mharc y Scarlets, Llanelli. Fe'i cynhaliwyd i gyd-fynd â Diwrnod Ymwybyddiaeth Cenedlaethol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a daeth dros 200 o bobl i'r gynhadledd, o bob rhan o'r rhanbarth. Yn ei hanerchiad agoriadol, siaradodd Dr Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, am y gwaith sydd wedi'i wneud yn genedlaethol i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i fynd i'r afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Hefyd, cafodd mynychwyr y gynhadledd eu difyrru gan berfformiad pwerus ac emosiynol o'r enw "Sexting", gan Gwmni Theatr Arad Goch, a ddefnyddiwyd wedyn fel sylfaen ar gyfer gweithdai ym mhob ysgol uwchradd yng Ngheredigion. Roedd y ddrama rymus yn amlygu pa mor hawdd yw hi i bobl ifanc gael eu perswadio i rannu delweddau anweddus a sut gellid colli rheolaeth yn llwyr ar hynny maes o law.




**Cyfraniad CADW at y Gynhadledd:**




- Cynllun Gweithredu Rhanbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Ar ran y Bwrdd, fe wnaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant arwain a gweithredu datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rhanbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Sefydlwyd trefniadau adrodd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob Grŵp Gweithredol Lleol adrodd am eu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd, i'r Bwrdd, bob tri mis.

- Cyfarfodydd Amlasiantaeth ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)

Rhoddwyd fframwaith ar gyfer gweithredu cyfarfodydd MASCE ar draws y rhanbarth ar waith trwy ddatblygu cylch gorchwyl. Bwriedir i gyfarfodydd MACSE ddarparu fframwaith er mwyn ei gwneud hi'n haws rhannu gwybodaeth a chynllunio gweithredu yn rheolaidd ymhlith asiantaethau, i fynd i'r afael â dioddefwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant a'r bobl sy'n camfanteisio. Mae'r cyfarfodydd yn rhoi fforwm i weithwyr proffesiynol fonitro achosion lle'r amlygwyd risg camfanteisio'n rhywiol ar blant, o fewn cyd-destun amlasiantaeth.

- Prosiect Gwella

Mae'r Bwrdd wedi gweithio'n gydweithredol â Barnardo's a CASCADE (Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant) ar weithredu Prosiect Gwella. Nod y prosiect tair blynedd hwn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, yw gostwng y risg y bydd plant a phobl ifanc agored i niwed yn dioddef camfanteisio rhywiol neu'n arddangos ymddygiad sy'n niweidiol yn rhywiol, trwy ddatblygu model atal i'w ddefnyddio mewn gofal cymdeithasol. Mae'r prosiect yn archwilio'r rhagdybiaethau fod cydberthynas rhwng dioddef trawma yn gynnar yn ystod plentyndod a'r potensial i fod yn blentyn sy'n dioddef camfanteisio rhywiol neu ddatblygu ymddygiad niweidiol yn rhywiol yn ystod llencyndod.




Fel rhan o'r gwaith hwn, penodwyd gweithiwr prosiect ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, sef Giselle Moran. Mae Giselle wedi gweithio'n agos â'r Bwrdd Diogelu dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi helpu i roi'r strategaeth a'r cynllun ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar waith ar draws y rhanbarth. Mae Giselle wedi ymgymryd â gwaith cynhwysfawr i fapio gwasanaethau ar draws Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru i nodi pa gymorth a gwasanaethau sydd ar gael i'r grŵp hwn o blant. Mae'r prosiect wedi cwblhau ei flwyddyn gyntaf ac mae bellach ar ddechrau blwyddyn 2. Yng Ngham 2, bydd prosiect peilot a model ymyrraeth yn cael eu rhoi ar waith, a fydd yn dewis sampl fach o blant rhwng 5 ac 11 oed yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ac sy'n derbyn gwasanaethau gan ofal cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin.

Datblygu Dogfen Trothwyon Rhanbarthol

Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau rhanbarthol wedi arwain datblygu dogfen cymhwysedd am gymorth a throthwyon rhanbarthol - 'Y Cymorth Cywir ar yr Adeg Gywir'. Cynhaliwyd cyfres o weithdai yn cynnwys uwch-reolwyr ac ymarferwyr llinell flaen o bob asiantaeth bartner. Mae'r ddogfen yn rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol ar sut i ymateb i'r plant a'u teuluoedd y nodir bod angen gwasanaethau a chymorth arnynt ar draws y sbectrwm angen, gan wasanaethau cyffredinol ac ataliol, ar gyfer y rhai yr ystyrir bod risg niwed iddynt a/neu fod angen eu hamddiffyn.

**Adborth ymarferwr:**

"Dadansoddiad da gyda phwyntiau bwled a lliw ac yn hawdd ei ddeall pan fyddwch yn y car cyn i chi gyfarfod â rhiant"



**Adborth ymarferwr ar y ffurflen atgyfeirio newydd:**

“Llawer haws i’r defnyddiwr”

“Mwy o ffocws ar y rheswm dros atgyfeirio”

Mae’r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau wedi datblygu Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth ar gyfer Plant, sy’n ategu’r Ddogfen Trothwyon Rhanbarthol. Gobeithir y bydd hyn yn helpu i annog ymarfer mwy cyson ar draws y rhanbarth pan fydd gweithwyr proffesiynol yn atgyfeirio teuluoedd i wasanaethau a/neu gymorth. Cafwyd adborth da gan yr holl bartneriaid.

Cynlluniau Peilot Galwadau Cynadledda Cam-drin Domestig Rhanbarthol (DACC) a Chanolfannau Rhannu Gwybodaeth Amlasiantaeth (MASH)

Nod y ddau fodel uchod yw gwella rhannu gwybodaeth, asesiadau risg a phenderfyniadau amlasiantaeth, o fewn systemau diogelu ehangach. Sefydlwyd prosiectau peilot ar gyfer DACC a MASH yn Sir Gaerfyrddin, er y dylid nodi bod peilot MASH wedi’i gyfyngu i osod aelod anghymwys o’r adran Gwasanaethau Plant o fewn Tîm Atgyfeirio Canolog yr Heddlu. Gwerthuswyd deilliannau a buddion hirdymor posibl y ddau brosiect hyn gan adolygydd annibynnol, Rosie Rae, ym mis Hydref 2016.

O ran DACC, amlygwyd buddion hirdymor a gwelliannau mewn ymarfer o ganlyniad i’r prosiect hwn. Fodd bynnag, o fewn cyd-destun gwell gweithio amlasiantaeth a chydlynol ac ymatebion i gam-drin domestig, a gwella amgyffrediad a dealltwriaeth ymarferwyr o rai agweddau mwy cymhleth gwaith cam-drin domestig, nid oedd hi’n bosibl cyfiawnhau buddion cyffredinol gweithredu’r system hon o gymharu â’r gost, yr adnoddau sylweddol a’r lefelau staffio yr oedd eu hangen er mwyn i’r prosiect barhau. O ganlyniad, daeth y prosiect peilot i ben yn Sir Gaerfyrddin yn Chwefror 2016 ac, ar hyn o bryd, nid oes bwriad i’r model hwn gael ei weithredu’n rhanbarthol.

O ran prosiect MASH, er bod buddion y model hwn yntau wedi’u cydnabod, amlygwyd heriau rhoi’r prosiect ar waith mewn lleoliad gwledig yn bennaf sy’n ymestyn dros ardal ddaearyddol fawr. Daeth yr adolygiad i’r casgliad nad oedd digon yn hysbys am y proffil diogelu, y proffiliau gwasanaeth na’r llwybrau rhanbarthol gyda’i gilydd i lywio symud i unrhyw fodel rhanbarthol ac ni ystyriwyd bod achos busnes digon cryf i gyfiawnhau lefel y buddsoddiad y byddai ei hangen i ddatblygu MASH rhanbarthol.

## SUT CYFLAWNOM YN UNOL AG AMCANION CWMPAS

Y prif ffocws eleni oedd sefydlu Bwrdd CWMPAS, gosod trefniadau llywodraethu ac alinio â Bwrdd CYSUR. Megis dechrau y mae Bwrdd CWMPAS, felly prin yw’r amcanion y gellir adrodd arnynt eleni.

Cynllun Gweithredu Rhanbarthol Ymgyrch Jasmine

Cryfhawyd fframwaith adrodd a sicrhau ansawdd y Bwrdd yn sgil datblygu Cynllun Gweithredu Rhanbarthol Ymgyrch Jasmine; ei nod yw monitro trefniadau comisiynu ac ansawdd y gofal a ddarperir i bobl hŷn yn y rhanbarth neu sy’n byw mewn cartrefi gofal neu nyrsio.

## SUT CYFLAWNOM YN UNOL Â CHYD-AMCANION Y BYRDDAU

### Alinio byrddau CYSUR a CWMPAS yn agosach

Er bod CYSUR a CWMPAS yn ddau Fwrdd gwahanol, ar wahân, mae aliniad cryf iawn rhyngddynt ac maent yn cydweithio'n agos ar lawer o amcanion. Cynhelir cyfarfodydd y Byrddau Gweithredol yn yr un lle, ar yr un diwrnod. Datblygwyd rhan trawstorri ac fe'i cynhelir rhwng y ddau brif gyfarfod Bwrdd, sy'n galluogi aelodau i gyd-drafod a chyd-ystyried materion diogelu sy'n berthnasol i'r agendâu diogelu oedolion a phlant. Mae hyn yn cynnwys materion fel cam-drin domestig, iechyd meddwl a chaethwasiaeth fodern. Mae hyn wedi helpu i osgoi dyblygu ac ailadrodd diangen. Mae wedi ymestyn a chryfhau'r berthynas rhwng y ddau Fwrdd a'u haelodau. Adlewyrchwyd y model hwn ar lefel leol, gyda phob un o'r pedwar Grŵp Gweithredol Lleol yn mabwysiadu'r un fformat fel y gall themâu a materion diogelu sy'n trawstorri gael eu trafod yn lleol.

Fel rhan o'r berthynas waith agos hon, cynhaliodd Byrddau CYSUR a CWMPAS Ddiwrnod Cynllunio Busnes ar y Cyd fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu ym mis Tachwedd 2016. Fe wnaeth y digwyddiad osod a chytuno ar flaenoriaethau strategol CYSUR a CWMPAS ar gyfer 2017/18. Nodir bod llawer o'r rhain yn gyd amcanion a deilliannau â blaenoriaeth, fel yr amlinellir yng nghynllun blynyddol y Bwrdd a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2017. Mae hyn wedi cryfhau ei ddull pob oed o ymdrin â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg.



### Cwblhau a Lansio Gwefan y Bwrdd

Yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu, lansiwyd gwefan y Bwrdd yn swyddogol. Bwriedir iddi fod yn ganolbwynt rhannu gwybodaeth, sy'n hygyrch i aelodau'r cyhoedd ac asiantaethau proffesiynol ar draws y rhanbarth cyfan. Gall y wefan gael ei defnyddio gan rieni a gofalwyr, plant a phobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg niwed, athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, yr heddlu, swyddogion prawf, gweithwyr ieuenctid, asiantaethau gwirfoddol ac aelodau'r gymuned. Mae ymrwymiad yn y Llywodraeth i fod yn agored a thryloyw, gan wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy atebol fel bod pobl yn gwybod sut mae arian yn cael ei wario a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Yn unol â'r ethos hwn, bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwneud y mwyaf o'i bresenoldeb ar-lein er mwyn dweud wrth y cyhoedd beth rydym ni'n ei wneud a sut. Bwriadwn fod yn rhagweithiol ynghylch yr hyn sy'n cael ei roi ar-lein i amlygu gwaith y Bwrdd mewn modd cadarnhaol.




## Sefydlu Brandio a Logo'r Bwrdd

Datblygwyd brandio'r Bwrdd gyda logos cysylltiedig yn cael eu defnyddio ar gyfer CYSUR, CWMPAS a'r Bwrdd ar y Cyd. Bellach, defnyddir y rhain yn holl ddogfennau, gohebiaeth a pholisïau'r Bwrdd.

## Ymgymryd â Dadansoddiad Cynhwysfawr o Anghenion Hyfforddiant

Ymgymerodd yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol â dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion hyfforddiant amlasiantaeth ym mis Hydref 2015.  Nododd hwn fod hyfforddiant cynhwysfawr, canolbwyntiedig ar ddiogelu ar gael gan bob asiantaeth ar gyfer staff, yn cynnwys materion fel camfanteisio'n rhywiol ar blant, anffurfio organau cenhedlu benywod a hyfforddiant Atal.  Hefyd, roedd nifer o becynnau e-ddysgu o ansawdd da ar gael i staff.  Nododd y dadansoddiad bod angen darparu mwy o hyfforddiant arbenigol i staff ar faterion fel hyfforddiant Adran 47, ac i ymarferwyr a oedd yn cynnal adolygiadau annibynnol fel rhan o Adolygiadau Ymarfer, a bod angen i unrhyw hyfforddiant rhanbarthol yn y dyfodol ganolbwyntio ar hyfforddiant arbenigol pwrpasol a nodwyd.




Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol wedi ymgymryd â gwaith pellach sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi cyfuno a datblygu ymhellach ganfyddiadau'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant.  Caiff canlyniad y gwaith hwn a chyfeiriad y grŵp wrth fwrw ymlaen dros y flwyddyn i ddod ei ddisgrifio mewn amryw adrannau'r adroddiad hwn.

## Cryfhau Gallu'r Uned Busnes

Mae'r Bwrdd wedi buddsoddi yn natblygiad Uned Busnes y Bwrdd. Cafodd gofynion y swydd rheolwr busnes bresennol ar gyfer Bwrdd CYSUR eu hailwerthuso a'u hymestyn i gefnogi bwrdd CWMPAS. Diwygiwyd proffil y swydd a chafodd focws strategol ei gynnwys yn y disgrifiad swydd, a phenodwyd Rheolwr newydd y Bwrdd Rhanbarthol, sef Julie Breckon. Crëwyd swydd cymorth busnes lefel uchel ychwanegol i gefnogi Rheolwr y Bwrdd.



## Adolygiadau Ymarfer

Comisiynodd y Bwrdd ymgynghorydd annibynnol i ddatblygu Protocol Adolygiadau Ymarfer ar gyfer proses Adolygiadau Ymarfer Plant y Bwrdd, er mwyn helpu i sicrhau dull ac ymarfer mwy cyson ar draws y rhanbarth ac i roi fframwaith ar gyfer lledaenu dysgu'n amserol.  Rhoddir y fframwaith ar waith yn ystod y flwyddyn sydd i ddod a'i gopïo ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Yn ogystal, mae trefniadau ar waith i gynnwys lledaenu unrhyw ddysgu ynghylch ymarfer sy'n deillio o Fforymau

Proffesiynol Amlasiantaeth yn y fframwaith sicrhau ansawdd sydd newydd ei ddatblygu.

Fframwaith Perfformiad a Sicrhau Ansawdd

Eleni, gwelwyd datblygiad fframwaith perfformiad a sicrhau ansawdd rhanbarthol. Caiff ei roi ar waith yn llawn yn 2017/18 ynghyd â chyflwyno set ddata gynhwysfawr a rhaglen archwilio thematig ranbarthol/leol. Mae themâu i'w harchwilio yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys hunanladdiad a phlant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Bydd y fframwaith hwn yn helpu i gryfhau trosolwg y Bwrdd Gweithredol o berfformiad a gweithgarwch diogelu ar draws y rhanbarth.

Cryfhau Trefniadau Llywodraethu

Sefydlwyd Cylch Gorchwyl sy'n amlinellu diben, ffocws a gweledigaeth y Bwrdd yn glir ac mae'n cyd-fynd yn agos ag egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg a'u hatal rhag cael eu cam-drin.

## GWEITHIO'N GYDWEITHREDOL Â PHOBL NEU GYRFF ERAILL

Mae Byrddau CYSUR a CWMPAS wedi gweithio'n gydweithredol ag amrywiaeth o sefydliadau fel rhan o'u gweithgareddau a'u gwaith diogelu.

- VAWDASV

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweithio'n agos â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn, i sefydlu trefniadau rhanbarthol ar gyfer consortiwm VAWDASW. Dyma ofyniad cyfreithiol yn unol â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Diben y ddeddfwriaeth hon yw mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan ei fod yn effeithio ar bawb ar draws y rhanbarth, gan gynnwys oedolion, plant a phobl ifanc. Mae'r ymadrodd 'Trais yn erbyn Menywod' yn ymgorffori pob math o drais ar sail rhyw, trais ar sail anrhydedd, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, masnachu pobl, trais a chamfanteisio rhywiol, a cham-drin domestig. Er Hydref 2016, mae Dafydd Llywelyn wedi arwain gweithgor amlasiantaeth i ystyried y trosglwyddo o'r trefniadau presennol i fodel rhanbarthol, gyda'r nod o sicrhau'r ymateb mwyaf effeithlon ac effeithiol i atal niwed difrifol sy'n cael ei achosi trwy gam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais ar sail rhyw yn ardal Dyfed Powys, trwy weithio mewn partneriaeth a defnyddio adnoddau sy'n cael eu rhannu. Yn Ionawr 2017, ystyriwyd cynnig yn y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a chytunwyd y byddai Bwrdd Gweithredol VAWDASV ar gyfer Dyfed Powys yn cael ei ymgorffori ym Mwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys:**

"Mae diogelu pobl agored i niwed yn flaenoriaeth allweddol i mi"

Bydd y gofynion i ddatblygu Bwrdd Gweithredol VAWDASV yn cael eu cyflawni bellach gan y Bwrdd Gweithredol presennol ar gyfer Diogelu, a fydd hefyd yn cynnig arweiniad ac arweinyddiaeth strategol i Grŵp Strategaeth VAWDASV. Mae'r grŵp hwn hefyd yn cynnwys partneriaid presennol y Bwrdd Diogelu, a fydd yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun strategol yn weithredol a bydd yn atebol i'r Bwrdd Gweithredol, ac yn adrodd am gynnydd yn uniongyrchol iddo. Caiff materion a thrafodaethau VAWDASV eu cynnwys yn rhan drawstoriadol yr eitemau ar agenda'r Board.

- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB)

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol iawn â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r cynrychiolydd rhanbarthol, Keith Towler. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd bob tri mis rhwng y Rheolwr Busnes a'r Bwrdd. Mae Keith Towler yn mynychu rhan drawstoriadol cyfarfod y Bwrdd Gweithredol ac mae'n rhoi diweddariadau rheolaidd ar waith parhaus y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Aeth Cadeiryddion CYSUR a CWMPAS i uwchgynhadledd ar arweinyddiaeth ar gais y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ym mis Mawrth 2017; canolbwyntiodd yr uwchgynhadledd ar sefydlu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer Cadeiryddion Byrddau Diogelu. Mae'r Uned Busnes, Cadeiryddion y Byrddau a Keith Towler wedi nodi nifer o flaenoriaethau i'w datblygu yn 2017/18, a fydd yn cynnwys ymgymryd â dadansoddiad cynhwysfawr o hyfforddiant**.**

- Cyngor Gofal Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Ar gais Cyngor Gofal Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, cwblhaodd yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol arolwg cynhwysfawr o hyfforddiant amlasiantaeth yn Rhagfyr 2016. Diben yr arolwg hwn oedd nodi'r trefniadau hyfforddiant diogelu presennol a ddarperir yng Nghymru ac amlygu pa fesurau allai wella hynny. Fe wnaeth y darn gwaith hwn alluogi'r grŵp i gael trafodaeth fyfyriol a galluogi ymarferwyr i amlygu diffygion ac anghysondebau yn y ddarpariaeth hyfforddiant diogelu mewn cyd-destun lleol a rhanbarthol. Wrth symud ymlaen yn 2017/18, bydd yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol yn datblygu strategaeth hyfforddiant rhanbarthol hirdymor 5 mlynedd hefyd.

- Canolfan Ymchwil CASCADE, Prifysgol Caerdydd

Ym Mawrth 2016, cynhaliodd y Bwrdd ddigwyddiad ymgynghorol amlasiantaeth ar y cyd yn ymwneud ag adolygiad gan CASCADE ar ran Llywodraeth Cymru. Archwiliodd yr arolwg hwn yr arweiniad presennol ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant ac adnodd y fframwaith asesu risg camfanteisio rhywiol. Mae gweithwyr proffesiynol yn defnyddio'r adnodd hwn yn helaeth i'w helpu i nodi p'un a yw plant yn dioddef camfanteisio rhywiol neu mewn perygl o

hynny. Roedd holl bartneriaid y Bwrdd a phob asiantaeth statudol wedi cyfrannu at y digwyddiad hwn ac yn bresennol ynddo. Cyhoeddir ei gasgliadau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, 2017/18.

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Ar 1 Mawrth 2017, fe wnaeth y Bwrdd Diogelu gefnogi Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi ar Reolaeth drwy Orfodaeth, wedi'i threfnu gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn. Diben y gynhadledd oedd codi ymwybyddiaeth am reolaeth drwy orfodaeth fel math o gam-drin domestig, fel rhan o Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Daeth nifer o asiantaethau partner y Bwrdd i'r gynhadledd a chyhoeddwyd datganiad ar y cyd i'r wasg yn amlygu'r gwaith cyfredol ar y cyd rhwng y Bwrdd Diogelu a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.




**GWEITHIO'N GYDWEITHREDOL Â BYRDDAU DIOGELU RHANBARTHOL ERAILL**

- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgymryd â Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth ar ran Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin.

- Mae Rheolwyr Byrddau Rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd i gynnig cymorth gan gymheiriaid a chynorthwyo â gweithio'n gydweithredol ar draws Cymru.

- Mae Rheolwyr Datblygu Busnes Byrddau Rhanbarthol wedi bod yn cyfarfod â chydweithwyr yn LlC a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i gynllunio ar y cyd ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu.

**PRYD A SUT MAE PLANT NEU OEDOLION WEDI DEFNYDDIO CYFLE I GYMRYD RHAN YNG NGWAITH Y BWRDD DIOGELU**

Fe wnaeth Bwrdd CYSUR gomisiynu Gwasanaeth Eirioli Annibynnol Tros Gynnal i redeg a hwyluso'i Fwrdd Diogelu Iau (CADW). Mae plant a phobl ifanc o bob rhan o'r 4 sir yn aelodau ohono. Mae'r grŵp yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiad preswyl blynyddol. Mae'r grŵp yn rhoi cyngor a gwybodaeth i Fwrdd Gweithredol CYSUR ar amrywiaeth o faterion diogelu sy'n bwysig ac yn berthnasol i bobl ifanc. Gwneir hyn trwy weithdai wedi'u hwyluso a digwyddiadau ymgynghori wedi'u hwyluso gan Tros Gynnal.

Standing up for Children
Tros Gynnal Plant

**Aelod o CADW:**

"Mae bod yn rhan o'r grŵp wedi magu fy hyder a'm gwybodaeth am ddiogelu"

Trwy gydol 2016-17, mae Bwrdd CADW wedi cynorthwyo'r Bwrdd i ddatblygu ei gynllun blynyddol strategol. Fe wnaeth Rheolwr y Bwrdd Rhanbarthol ymgynghori â nhw fel rhan o ymweliad â'r grŵp ym mis Gorffennaf 2016 pan ofynnwyd iddynt enwi themâu diogelu y dylid eu hystyried. Cafodd gwaith ei baratoi a'i gynllunio i'r Bwrdd Gweithredol fel rhan o'i ddiwrnod cynllunio busnes ym mis Tachwedd 2016. Mae'r themâu a enwyd, sef iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a chamfanteisio, wedi'u cynnwys yn y cynllun blynyddol a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2017.

**Staff sy'n gweithio â grŵp CADW:**

"Trwy weithio gyda'r grŵp hwn, rydym ni fel gweithwyr proffesiynol wedi dysgu llawer am amrywiol faterion diogelu trwy roi cyfle iddyn nhw ddweud eu dweud"




Mae Bwrdd CADW wedi bod yn gweithio'n agos â Chydlynydd Cymorth Busnes y Bwrdd, Wendy Butcher, ac wedi rhoi adborth ar ffyrdd o wella a datblygu dulliau cyfathrebu'r Bwrdd a'i bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad, mae cynlluniau ar waith erbyn hyn i Fwrdd CADW gael ei dudalen bwrpasol ei hun ar wefan y Bwrdd ac i Fwrdd CYSUR ddatblygu tudalen Facebook fel y gellir cyfathrebu â phobl ifanc ar fforwm o'u dewis.

Yn ogystal â Bwrdd Rhanbarthol CADW, mae gan bob un o'r 4 awdurdod lleol – Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys – eu trefniadau a'u **Grwpiau Diogelu Iau Lleol** eu hunain. Mae'r rhain wedi'u halinio'n agos â'r Grwpiau Gweithredol Lleol mewn 3 o'r 4 awdurdod lleol. Mae aelodau iau yn mynychu ac yn rhoi gwybodaeth i gyfarfodydd y Grwpiau Gweithredol Lleol ar faterion diogelu lleol pobl ifanc.

- Cynhaliodd 'Junior Safeguardians' lleol **Sir Benfro** gynhadledd iau lwyddiannus iawn ym mis Hydref 2016, lle y gwnaethant archwilio ac ystyried materion yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Cafwyd presenoldeb da yn y gynhadledd, gyda chynrychiolwyr o 6 o'r 8 ysgol uwchradd. Cafwyd gwerthusiad cadarnhaol iawn gan y bobl ifanc, gyda 100% ohonynt yn dweud y byddent yn dod i gynhadledd arall yn y dyfodol.

**Person ifanc a aeth i'r gynhadledd:**

"Rwy'n meddwl y gallwn i helpu fy ffrindiau a 'nheulu os byddan nhw fyth mewn sefyllfa fel yr un ddysgon ni amdani heddiw"





- Cynhyrchodd **‘**Sêr Saff’ **Ceredigion** fideo gwrth-fwlio, a lansiwyd yn llwyddiannus fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu ym mis Tachwedd 2016. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r fideo ar wefan Bwrdd CYSUR.

- Mae trefniadau diogelu iau lleol yn **Sir Gaerfyrddin** wedi’u hymgorffori yng Nghyngor Ieuenctid Sir Gâr. Mae’r materion diogelu sydd wedi’u harchwilio gan y grŵp hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.



- Ym **Mhowys**, mae’r grŵp iau ‘Eat Carrots’ wedi cynnal rhai digwyddiadau ymgynghori yn ymwneud â pherthnasoedd iach. Roedd y bobl ifanc yn gallu cynghori Grwpiau Gweithredol Lleol Powys ar faterion yn gysylltiedig â’r Cwricwlwm ABCh ac, yn benodol, yr angen am gymorth a gwybodaeth well mewn ysgolion ynghylch amrywiaeth a materion rhywioldeb. Hefyd, bu’r bobl ifanc yn archwilio cysyniad ‘llesiant’ a’i ddealltwriaeth ohono.

**Aelod o CADW ar Twitter:**

“Roedd hi’n ddiwrnod difyr iawn, rwy’n falch mod i wedi cael y cyfle i fynd!”

Wrth symud ymlaen, mae’r Bwrdd wedi gwneud ymrwymiad sicr fel rhan o’i gynllun blynyddol i gryfhau’r berthynas rhwng Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol CYSUR a Bwrdd Iau Rhanbarthol CADW. Mae cynlluniau ar waith i’r Bwrdd Iau fynd i gyfarfod o’r Bwrdd Gweithredol yn flynyddol o leiaf ac i aelodau’r Bwrdd Gweithredol fynd i gyfarfod tri-misol Bwrdd Iau CADW. Aeth Keith Towler, cyswllt Canolbarth a Gorllewin Cymru â’r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, i gyfarfod CADW ym mis Mehefin 2017.

**Keith Towler ar Twitter:**

“Wedi gwir fwynhau cwrdd â chi i gyd”

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori a chodi ymwybyddiaeth mewn amrywiol leoliadau ar draws y rhanbarth fel rhan o **Wythnos Genedlaethol Diogelu** ym mis Tachwedd 2016. Fe wnaeth hyn gynnwys digwyddiad Rhuban Wen yn Sir Benfro, ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys. Gosodwyd stondinau mewn mannau cyhoeddus, fel yn yr ysbyty ac mewn archfarchnadoedd, gyda’r bwriad o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion cam-drin domestig.



Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin ymgyrch lwyddiannus yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed Powys a’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Cynhaliwyd sioeau teithiol yn Llanelli a Chaerfyrddin, a bu llawer o aelodau’r cyhoedd yn bresennol yn y ddau.

> **Pobl yn Gyntaf Sir Benfro:**
>
> "Rwy' wir wedi mwynhau gweithio gyda chi ac mae ymgynghori â nhw yn golygu llawer i'r aelodau"

Mae'r Bwrdd wedi comisiynu mudiad Pobl yn Gyntaf Sir Benfro i helpu i ddatblygu fersiwn hawdd ei ddarllen o gynllun blynyddol y Bwrdd. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar fformat ac iaith gyda grŵp o oedolion ag anawsterau dysgu canfyddedig, sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn yn parhau, a nod Byrddau CWMPAS a CYSUR yw cwblhau a chyhoeddi'r fersiwn ar eu gwefan cyn bo hir.

Ymgynghorwyd â nifer o grwpiau rhieni, teuluoedd ac oedolion ar draws y rhanbarth ar gynnwys, fformat ac iaith y ddogfen Cymhwysedd ar gyfer Cymorth a Throthwyon Rhanbarthol a ddatblygwyd gan Fwrdd CYSUR. Er bod hon yn ddogfen sy'n canolbwyntio ar blant, yn ymwneud â'r cymorth a'r ddarpariaeth i blant a'u teuluoedd, roedd llawer o'r oedolion yr ymgynghorwyd â nhw yn derbyn gwasanaethau ataliol a statudol ar eu cyfer nhw'u hunain fel oedolion. Ymgynghorwyd yn helaeth ar y ddogfen hon gydag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol llinell flaen i sicrhau bod eu barn am welliannau i wasanaethau ac ymarfer wedi'i chynnwys.

> **Adborth gan riant:**
>
> "Gall gweithwyr proffesiynol gyfeirio ato'n hawdd ac mae'n sicrhau cysondeb hefyd"

**<u>I BA RADDAU Y MAE POB AELOD O'R BWRDD DIOGELU WEDI CYFRANNU AT EFFEITHIOLRWYDD Y BWRDD</u>**

- <u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</u>

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithgar iawn at Fwrdd CYSUR a datblygiad parhaus Bwrdd CWMPAS. Mae cynrychiolwyr Hywel Dda yn bresennol fel mater o drefn ac maent wedi cyfrannu'n llawn at y Bwrdd Gweithredol, y Grŵp Gweithredol Lleol a holl gyfarfodydd yr Is-grwpiau, gan gynnwys Nyrs wedi'i Henwi a Meddyg Wedi'i Enwi y Bwrdd Iechyd ar gyfer Diogelu.

Mae Hywel Dda yn cyflwyno data ar berfformiad diogelu lleol i holl gyfarfodydd y Grŵp Gweithredol Lleol, sy'n cyfrannu at fonitro ymarfer, themâu a thueddiadau diogelu yn lleol.

Mae dosbarthu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am faterion diogelu ar draws ei weithlu i'w weld yn y rhaglen hyfforddiant ganolbwyntiedig ar ddiogelu a gyflwynir, yn ogystal â dylunio a datblygu adnodd yr Holiadur Risg Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSERQ) ar gyfer plant sy'n wynebu risg camfanteisio rhywiol, siart llif ynghylch anffurfio organau cenhedlu benywod a thaflen i gefnogi Hyfforddiant Diogelu Oedolion.

Mae gan Hywel Dda ffocws strategol cadarn ar Blant sy'n Derbyn Gofal ac, yn y 12 mis blaenorol, mae wedi datblygu llwybr iechyd a deintyddol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae Hywel Dda wedi cyfrannu at gyflwyno hyfforddiant i ofalwyr maeth sydd newydd eu recriwtio, ynghyd â chydweithredu â sefydliad Plant yng Nghymru i drefnu digwyddiad ymgysylltu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn ardal Hywel Dda.

- <u>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</u>

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithgar iawn at Fwrdd CYSUR a datblygiad parhaus Bwrdd CWMPAS. Mae cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn bresennol fel mater o drefn ac maent wedi cyfrannu'n llawn at y Bwrdd Gweithredol, y Grŵp Gweithredol Lleol a holl gyfarfodydd yr Is-grwpiau, gan gynnwys Nyrs wedi'i Henwi a Meddyg Wedi'i Enwi y Bwrdd Iechyd ar gyfer Diogelu.

Ar hyn o bryd, Cyfarwyddwr Nyrsio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yw Is-gadeirydd Bwrdd CYSUR. Mae staff Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi chwarae rhan weithgar mewn grwpiau pwrpasol, fel y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Grŵp y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys gysylltiad agos â'r Grŵp Diogelu Iau lleol, 'Eat Carrots', ac mae wedi mynd i rai o'u cyfarfodydd. Hefyd, mae pobl ifanc wedi'u cynnwys mewn paneli cyfweld aelodau staff newydd. Mae Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu wedi bod yn Adolygydd Annibynnol ar gyfer y Bwrdd wrth i'r Bwrdd gynnal ei Adolygiad cyntaf o Ymarfer Oedolion.

- <u>Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Diogelu Cenedlaethol)</u>

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithgar iawn at Fwrdd CYSUR a datblygiad parhaus Bwrdd CWMPAS. Mae cynrychiolwyr Tîm Diogelu Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bresennol fel mater o drefn ac maent wedi cyfrannu'n llawn at y Bwrdd Gweithredol. Rhoddant gyngor arbenigol annibynnol ar ran GIG Cymru i Fwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Is-grwpiau Adolygu Ymarfer.

Yn genedlaethol, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru arbenigedd penodol fel Adolygwyr Ymarfer ac mae ei gynrychiolydd presennol ar Fwrdd CYSUR hefyd yn Gadeirydd yr Is-grŵp ar Adolygiadau Ymarfer Plant.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi arwain ar ledaenu ymchwil genedlaethol i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Cyhoeddwyd Ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod eleni.

- <u>Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru</u>

Daeth Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn aelodau ffurfiol o Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Hydref 2016. Cânt eu cynrychioli yn y Bwrdd Gweithredol, rhai Is-grwpiau Rhanbarthol ac mewn Grwpiau Gweithredol Lleol. Mae angen i'w cyfraniad at yr agenda diogelu rhanbarthol a sut y dylid rheoli hyn yn lleol gael ei drafod a'i ystyried ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Maent wedi cyfrannu at Adolygiad Ymarfer Oedolion trwy ddarparu gwybodaeth.

Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bod â ffocws strategol ar iechyd meddwl trwy greu arweinydd iechyd meddwl i ddatblygu'r agenda iechyd

meddwl. Mae tîm diogelu Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cefnogi gweithio amlasianaeth cydweithredol gyda phartneriaid perthnasol pan gaiff pryderon naill ei eu codi'n fewnol trwy brosesau adrodd yr Ymddiriedolaeth neu yn allanol gan gleifion a defnyddwyr eraill y gwasanaeth.

- Heddlu Dyfed Powys

Mae Heddlu Dyfed Powys wedi dangos ymrwymiad i weithio amlasiantaeth ar lefel strategol a gweithredol gyda dull tryloyw a chydweithredol o ddiogelu plant ac oedolion. Mae Heddlu Dyfed Powys wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithgar iawn at Fwrdd CYSUR a datblygiad parhaus Bwrdd CWMPAS. Mae hyn i'w weld trwy bresenoldeb a chyfranogiad swyddogion fel mater o drefn yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, y Grŵp Gweithredol Lleol a'r Is-grwpiau. Mae cynrychiolydd Heddlu Dyfed Powys yn Is-gadeirydd Bwrdd CWMPAS.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac i ymateb i gynnydd mewn baich gwaith, mae Heddlu Dyfed Powys wedi ailstrwythuro'i adnoddau yn fewnol i gynyddu nifer y swyddogion sydd ar gael i gynnal ymchwiliadau diogelu trwy ailosod ei Uned Amddiffyn y Cyhoedd yn ei Uned CID.

Mae Heddlu Dyfed Powys wedi cyflwyno ymchwilwyr arbenigol, pwrpasol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ym mhob ardal, yn ogystal â Chydlynydd a Swyddog Deallusrwydd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn ganolog. Mae wedi bod yn allweddol wrth hybu sefydlu a datblygu cyfarfodydd amlasiantaeth ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar draws y rhanbarth, fel rhan o'i gyfraniad at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae sefydlu tîm ymchwiliadau ar-lein yr heddlu yn arbennig ar gyfer targedu gweithgarwch troseddol ar-lein, wedi ategu a chryfhau gwaith ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Cyflwynwyd rhaglen effeithiol cyswllt ag ysgolion, sy'n galluogi swyddogion i roi cyngor a chymorth i ysgolion. Rhoddwyd hyfforddiant ar bobl agored i niwed i bob heddwas llinell flaen i helpu i wella'u gwybodaeth a'u hymateb i droseddau'n gysylltiedig â diogelu.

Mae Heddlu Dyfed Powys wedi comisiynu mudiad Llamau i gynnal sesiynau ôl-drafod gyda phobl ifanc mewn achosion pan fydd yr Heddlu wedi derbyn adroddiadau eu bod ar goll. Fe wnaeth swyddogion Heddlu Dyfed Powys ymgynghori â Bwrdd Iau CADW fel rhan o ymchwil a wnaed ym mis Gorffennaf 2016 i blant sy'n mynd ar goll.

- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Dyfed Powys

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithgar at y Bwrdd Diogelu trwy bresenoldeb rheolaidd a chyson yn y Bwrdd Gweithredol ac yn y Grwpiau Gweithredol Lleol a'r Is-grwpiau sylfaenol. Mae rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir Benfro yn cynrychioli buddiannau cyfiawnder ieuenctid rhanbarthol yn y Bwrdd Gweithredol ac mewn Is-grwpiau, gan ledaenu gwybodaeth i gydweithwyr ar draws Ardal Dyfed Powys trwy gyfarfodydd cyfiawnder ieuenctid rhanbarthol. Mae gan bob Grŵp Gweithredol Lleol ymgysylltiad â'u Rheolwr Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid lleol, a chynrychiolaeth ganddynt, ac maent yn cyfrannu at yr agenda

diogelu lleol. Ffocws penodol i'r Bwrdd eleni oedd cryfhau adrodd ar ddigwyddiadau dysgu tyngedfennol Cyfiawnder Ieuenctid a sicrhau bod systemau ar waith i gipio ac adrodd ar unrhyw themâu dysgu a nodwyd fel rhan o hyn mewn cyfarfodydd Grwpiau Gweithredol Lleol.

- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol

Cynrychiolir y ddau sefydliad yn y Bwrdd Gweithredol ac mewn Grwpiau Gweithredol Lleol. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, mae presenoldeb yn yr amrywiol Is-grwpiau Rhanbarthol ar draws y ddau Fwrdd a'r ymgysylltu â nhw wedi cryfhau. Trwy lefelau staffio ac adnoddau ychwanegol, mae'r gwasanaeth bellach wedi'i gynrychioli yn y rhan fwyaf o'r Is-grwpiau sydd ar waith. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol wedi cydweithio â Heddlu Dyfed Powys trwy gyflwyno Canolfan Amddiffyn y Cyhoedd, sydd â'r nod o reoli troseddwyr a'r risgiau sy'n cael eu peri i bobl agored i niwed yn well, gan gynnwys plant sy'n wynebu risg camfanteisio arnynt yn rhywiol.

- Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Cyfarwyddwr Statudol Cymunedau Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadeirio Bwrdd CYSUR ac mae wedi cyflawni'r rôl hon ers sawl blwyddyn, sydd wedi rhoi arweinyddiaeth strategol gyson i'r Bwrdd Gweithredol a'i Grwpiau Gweithredol Lleol ac Is-grwpiau sylfaenol. Mae Sir Gaerfyrddin wedi rhoi 'Arwyddion Diogelwch' ar waith fel model ar gyfer cynnal cynadleddau achos amddiffyn plant; mae hwn yn rhan o fodel systemig ehangach o ymarfer gwaith cymdeithasol. Dros y 12 mis diwethaf, mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn y Plant ac mae o'r farn bod gweithredu'r model hwn yn rhan o'r rheswm dros hynny.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi ymgymryd â darnau penodol o waith gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys Heddlu Dyfed Powys, ar Blant sy'n mynd ar goll. Mae gwaith penodol wedi'i wneud hefyd â chydweithwyr, ynghylch plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, er mwyn defnyddio sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth staff yn y ddwy adran yn well i gefnogi'r grŵp hwn o blant a allai fod yn agored i niwed, yn well.

Penododd Gwasanaethau Oedolion Sir Gaerfyrddin Uwch-reolwr Diogelu yn llwyddiannus ym mis Hydref 2016. Mae gan ddeiliad y swydd rôl arwyddocaol yn cefnogi effeithiolrwydd y Bwrdd Rhanbarthol drwy ei chyfrifoldebau strategol a gweithredol.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi cymryd yr awenau o ran amlygu'r heriau presennol sy'n gysylltiedig â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac mae wedi bod yn rhagweithiol yn natblygiad Grŵp rhanbarthol Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Bydd y grŵp hwn yn archwilio cyfleoedd i rannu ymarfer da er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol a rhannu adnoddau lle bo'n bosibl.

Fe wnaeth Uwch-reolwr Diogelu Sir Gaerfyrddin annerch y Gynhadledd Diogelu Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni fel prif siaradwr, gan ganolbwyntio ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Yn ddiweddar, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal peilot, sef bod Swyddog Diogelu pwrpasol yn bresennol yn y tîm ‘drws ffrynt’. I bob diben, mae’r swyddog hwn yn sgrinio ac yn ymateb i bob ymholiad diogelu sy’n cyrraedd yr Awdurdod Lleol. Cafwyd canlyniadau hynod gadarnhaol o’r peilot a bydd hwn felly’n dod yn drefniant mwy parhaol.

- Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Penfro yw awdurdod lletya rhanbarthol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae’n darparu ar gyfer Uned Busnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden presennol yw Cadeirydd Bwrdd CWMPAS. Mae Cyfarwyddwr Addysg Statudol Sir Benfro yn cynrychioli’r meysydd eraill fel yr arweinydd strategol rhanbarthol ar gyfer Addysg.

Mae uwch swyddogion a staff Sir Benfro wedi arwain ar ddatblygiad rhanbarthol nifer o brosiectau allweddol y Bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi cynnwys datblygu dogfen trothwyon rhanbarthol a phrotocol ar gyfer diogelu plant sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref. Tan yn ddiweddar, Pennaeth y Gwasanaeth Plant oedd yn cadeirio’r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol a Rheolwr Hyfforddiant Sir Benfro sy’n cadeirio’r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol pob-oed.

Mae gan Sir Benfro fodel ymarfer ‘Arwyddion Diogelwch’ ar waith ar draws timau plant ac oedolion.

Mae Sir Benfro yn elwa o gael Tîm Diogelu Integredig sy’n cyfuno materion diogelu plant ac oedolion mewn un gwasanaeth unedig. O ganlyniad, mae Sir Benfro wedi ymgorffori dull ‘pob-oed’ effeithlon ac effeithiol iawn yn strwythur a rheolaeth ei Grŵp Gweithredol Lleol. O ganlyniad, bydd cynnal un Grŵp Gweithredol Lleol unedig yn hytrach na 2 gyfarfod ar wahân ar gyfer plant ac oedolion yn cael ei roi ar brawf am 6 mis yn ystod y flwyddyn sy’n dod.

- Cyngor Sir Powys

Mae Cyngor Sir Powys wedi gwneud cyfraniad llawn at Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a, hyd at fis Hydref 2017, roedd eu Cyfarwyddwr Statudol Pobl yn cadeirio Bwrdd CWMPAS. Mae Powys wedi sicrhau bod ganddynt gynrychiolaeth reolaidd a chyfranogiad llawn yn y Bwrdd Gweithredol, y Grŵp Gweithredol Lleol a’r holl Is-grwpiau. Mae Powys wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad y ddogfen trothwyon rhanbarthol ac roedd gan Gyn-bennaeth Gwasanaethau Plant y Sir rôl flaenllaw yn natblygiad y fframwaith VAWDASV rhanbarthol. Mae’r Grŵp Gweithredol Lleol ynghylch plant wedi’i hen sefydlu ac mae ganddo gysylltiadau agos â’i Grŵp Iau lleol, ‘Eat Carrots’.

Penodwyd Rheolwr Anghenion Dysgu newydd ym Mhowys eleni ac mae ganddo rôl flaenllaw o ran Diogelu mewn Addysg hefyd. Mae wedi bod wrthi’n gweithio gydag ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o ymarfer a gweithdrefnau diogelu. Yn ogystal, mae wedi llunio cysylltiadau â grwpiau lleol i rieni, ar gyfer plant sy’n cael addysg

ddewisol yn y cartref, gyda'r nod o'u cynnwys mewn gwella ymarfer diogelu ar gyfer y grŵp hwn o blant a allai fod yn agored i niwed.

- Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud cyfraniad llawn ac effeithiol at y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar bob lefel. Mae Uwch-swyddogion wedi bod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a chyfrannu atynt, ac mae cynrychiolaeth gyson, briodol ym mhob Is-grŵp Rhanbarthol penodedig.

Mae Gwasanaeth Plant Ceredigion wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol at yr agenda a'r gwaith rhanbarthol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Fe wnaeth ei Uwch-reolwr Diogelu gadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, a lywiodd ddatblygiad y strategaeth a'r cynllun rhanbarthol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Ceredigion oedd yr awdurdod lleol cyntaf yn y rhanbarth i gyflwyno cyfarfodydd amlasiantaeth ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant (MACSE) ac mae wedi rhoi cymorth a chyngor i ardaloedd eraill yn y rhanbarth ar roi'r model hwn ar waith.

Mae Ceredigion wedi rhoi cymorth anffurfiol sylweddol i'r Bwrdd ar ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae ei Uwch-reolwr Diogelu wedi sicrhau ansawdd a phrawfddarllen nifer o ddogfennau sydd wedi'u cyfieithu i sicrhau cywirdeb o ran iaith a chyd-destun priodol.

Mae Diogelu Oedolion Ceredigion wedi cyflwyno Cofnod Canlyniad Ymholiad electronig sydd wedi'i gynnwys yn System WCCIS. Mae hyn wedi symleiddio'r broses ar gyfer ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol wrth gofnodi'r wybodaeth y mae ei hangen i ategu gofynion rheoli perfformiad, wedi sicrhau cydymffurfiaeth â Rhan 7 gofynion SSWBA, ac wedi ategu gwelliannau i effeithlonrwydd gan y timau cysylltiedig.

Mae Ceredigion wedi dechrau'r Adolygiad cyntaf o Ymarfer Oedolion yn y rhanbarth. Mae'r achos yn mynd rhagddo a disgwylir cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd yn ddiweddarach yn ystod 2017. Mae'r achos hwn wedi rhoi cyfleoedd i wella proses Adolygiadau Ymarfer Oedolion, gan gynnwys rhoi canllawiau ychwanegol ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol.

Mae swyddogion diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion wedi cydweithio a chydweithredu ar nifer o faterion a phrosiectau diogelu. Mae hyn yn cynnwys cynnal adolygiad mawr o Bolisi Diogelu Corfforaethol Awdurdod Lleol Ceredigion yn 2016-17. Yn ogystal, maent wedi arwain datblygiad Protocol Rhanbarthol i Rieni â Salwch Meddwl canfyddedig. Dros y flwyddyn i ddod, mae Ceredigion yn awyddus i ddatblygu ei ymarfer a'i wasanaethau diogelu ymhellach ac yn ystyried rhoi ymarfer y model 'Arwyddion Diogelwch' ar waith, a bydd yn archwilio ffyrdd eraill o integreiddio ei wasanaethau diogelu plant ac oedolion.

**UNRHYW GEISIADAU A WNAED GAN Y BWRDD DIOGELU I UNRHYW BERSONAU CYMWYS O DAN A.137 (1) Y DDEDDF AM WYBODAETH BENODOL**

Ni wnaed unrhyw geisiadau o'r fath.

## GORCHMYNION AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION

Ni wnaed unrhyw geisiadau ar draws y rhanbarth am Orchmynion Amddiffyn neu Gefnogi Oedolion.

## SUT MAE'R BWRDD DIOGELU WEDI GWEITHREDU UNRHYW ARWEINIAD NEU GYNGOR A RODDWYD GAN WEINIDOGION CYMRU NEU'R BWRDD CENEDLAETHOL

Mae cadeirydd CYSUR wedi cynnal trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch y Canllawiau Anstatudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ddechrau 2017 yn gysylltiedig â phlant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Ym marn y Bwrdd, mae'r canllawiau hyn ymhell o fod yr hyn sydd ei angen i ddiogelu'r grŵp hwn o blant yn effeithiol.

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sicrhau bod y Bwrdd wedi'i gynrychioli'n briodol mewn nifer o ddigwyddiadau ymgynghori a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ynghylch datblygiad parhaus ac esblygol ganllawiau a pholisïau ar ddiogelu fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithio'n agos â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol; er nad oes unrhyw gyngor ffurfiol wedi'i gyhoeddi, mae'r Bwrdd yn ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth sy'n dod i law. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd wrthi'n casglu a dadansoddi gwybodaeth am ddarparu hyfforddiant diogelu ar draws y rhanbarth.

## UNRHYW WYBODAETH NEU DDYSGU Y MAE'R BWRDD DIOGELU WEDI'U LLEDAENU, NEU HYFFORDDIANT Y MAE WEDI'I ARGYMELL NEU EI DDARPARU

- <u>Dysgu</u>

Cwblhaodd Bwrdd CYSUR un Adolygiad cryno o Ymarfer Plant yn ystod y flwyddyn flaenorol. Bellach, mae'r Bwrdd wedi gweithredu'n llawn y camau gweithredu a argymhellwyd gan y Cynllun Gweithredu Rhanbarthol a ddeilliodd o'r Adolygiad Ymarfer Plant. Argymhellwyd bod hyfforddiant amlasiantaeth ar weithio gyda theuluoedd anodd, peryglus a chyfrwys yn cael ei ddarparu ar draws y rhanbarth. Fe wnaeth yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol gomisiynu sefydliad Reconstruct i gyflwyno'r hyfforddiant hwn. Cafwyd cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o asiantaethau partner yn yr hyfforddiant ac mae pob sefydliad bellach yn ystyried ac yn cynllunio'r ffordd orau o ledaenu negeseuon allweddol yr hyfforddiant hwn i niferoedd ehangach ar draws eu sefydliad.

**Adborth gan fynychwr y cwrs:**

"Cwrs gwych! Mae'r hyfforddwyr yn rhagorol – gwnaethant i bawb deimlo'n bwysig ac yn gartrefol."

**Adborth gan fynychwr y cwrs:**

"Cyfle rhagorol i fyfyrio ac ystyried sgiliau ymarferol ac emosiynol yn y gweithle."

Mae Sir Benfro wedi datblygu a gweithredu proses effeithiol iawn ar gyfer cynnal Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth (MAPFs). Fel rhan o'i Dîm Diogelu Integredig, mae nifer o'r rhain wedi'u cynnal eleni. Caiff dysgu ei ledaenu drwy ei Grŵp Gweithredol Lleol ac Adran Hyfforddiant. Mae'r themâu sydd wedi'u harchwilio yn ystod y flwyddyn a aeth heibio yn cynnwys honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol, gofal a ddarperir mewn Cartrefi Gofal a Nyrsio a marwolaeth mewn amgylchedd ysbyty.

- Hyfforddiant

Cyflwynwyd nifer o sesiynau hyfforddiant ar weithio gyda phlant sy'n arddangos ymddygiad niweidiol yn rhywiol ar draws y rhanbarth gan weithiwr prosiect Gwella camfanteisio'n rhywiol ar blant, wedi'u goruchwylio gan yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol.

**Adborth gan fynychwr y cwrs:**

"Roedd y cwrs hwn yn addysgiadol a diddorol."

"Gwybodaeth ddefnyddiol am beth sy'n briodol ac amhriodol o ran oedran."




Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fforymau hyfforddiant sydd wedi'u hen sefydlu. Cyflwynir y fforymau ar draws y Sir ac maent yn cynnwys 6 sesiwn. Cyflwynwyd tair ym mis Tachwedd 2016 a thair ym mis Mawrth 2017. Ymhlith y themâu a gafodd sylw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y mae Atal, troseddau casineb a hyfforddiant ar gymorth y Tîm o Amgylch y Teulu.

Yn dilyn cais gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, mae'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol wedi ymgymryd â darn arwyddocaol o waith i nodi'r hyfforddiant ar ddiogelu a gyflawnir gan bob sefydliad. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i gasglu ynghyd, bydd yn darparu gwaelodlin hyfforddiant ar draws y rhanbarth a Chymru.

## UNRHYW THEMÂU SYDD WRTH WRAIDD Y FFORDD Y MAE'R BWRDD DIOGELU WEDI CYFLAWNI EI SWYDDOGAETHAU, YN ÔL DADANSODDIAD O ACHOSION YR YMDRINIODD Â NHW AC UNRHYW NEWIDIADAU A RODDODD AR WAITH O GANLYNIAD

Mae'r Grŵp Rhanbarthol ar Adolygiadau Ymarfer Plant wedi amlygu rhai themâu sy'n dod i'r amlwg a welwyd trwy atgyfeiriadau i'r grŵp hwn. Amlygwyd nifer o achosion ar draws y rhanbarth sy'n cynnwys hunanladdiad gan blentyn ac ymgais i wneud hynny. O ganlyniad i hyn, mae'r Bwrdd wedi comisiynu Prifysgol Caerdydd i ymgymryd â darn sylweddol o ymchwil a fydd yn helpu i amlygu unrhyw themâu cyffredin a sut gall ymarfer a gwasanaethau diogelu gael eu defnyddio'n well i gefnogi'r grŵp hwn o bobl ifanc. Caiff canfyddiadau a chanlyniad yr ymchwil hwn eu

lledaenu ar draws y rhanbarth fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu ym mis Tachwedd 2017.

Er ei fod yn grŵp cymharol newydd, bydd yr Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn gyfrifol am unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Eleni, mae'r grŵp wedi nodi bod angen contractau a threfniadau comisiynu â mwy o ffocws ar gyfer Cartrefi Gofal a Nyrsio, yn enwedig mewn perthynas â'u dyletswydd i gydweithredu ag unrhyw adolygiadau neu ddigwyddiadau dysgu penodedig, os bydd hynny'n briodol. Yn ogystal, mae gan y grŵp rôl yn monitro ac amlygu unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â darparwyr gofal a allai fod yn cael eu monitro fel rhan o broses uwchgyfeirio pryderon.

Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau wedi cael blwyddyn brysur a gweithgar iawn. Fel rhan o gynllun gwaith y grŵp, bydd nifer o bolisïau a dogfennau rhanbarthol â blaenoriaeth yn cael eu datblygu, a fydd yn helpu i sicrhau ymarfer mwy cyson ynghylch diogelu ar draws y rhanbarth. Mae hyn wedi cynnwys yr angen am Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth ranbarthol ar gyfer plant ac oedolion ill dau, polisi rhanbarthol ar blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref a pholisi rhanbarthol ar ddiogelu plant â rhieni sydd â salwch meddwl canfyddedig.

**ASESIAD O'R FFORDD Y MAE'R BWRDD DIOGELU WEDI DEFNYDDIO'I ADNODDAU**

| Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Datganiad Diwedd Blwyddyn 2016-17 | | | |
|---|---|---|---|
| Cronfeydd Cronedig y Bwrdd – Gweddill Diwedd Blwyddyn 2015-16 | 89,726 | | |
| **GWARIANT:** | **GWIRIONEDDOL** | **INCWM:** | **GWIRIONEDDOL** |
| Swydd Rheolwr Rhanbarthol | 53,698.94 | Cyngor Sir Ceredigion | 10,994 |
| 1 x Cymorth Busnes amser llawn (9/12 mis) | 19,644.47 | Cyngor Sir Powys | 12,500 |
| Offer a meddalwedd TG | 2,984.80 | Cyngor Sir Caerfyrddin | 12,500 |
| Costau swyddfa, gweinyddol a recriwtio | 12,318.58 | Cyngor Sir Penfro | 12,626 |
| Teithio, lleoliadau a chyfathrebu | 3,867.93 | Heddlu Dyfed Powys | 10,000 |
| Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo | 414.10 | Gwasanaeth Prawf Cymru | 3,054 |
| Comisiynu gwasanaethau a darparu hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol yn allanol | 16,524.10 | Cwmni Adsefydlu Cymunedol | 3,054 |
| | | Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 10,000 |
| | | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 7,635 |
| | | **Cyfanswm Cyfraniadau Partneriaid y Bwrdd yn 2016-17** | **82,363** |
| | | Incwm arall (Grant NSW Llywodraeth Cymru) | 2,000 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **110,058.46** | **CYFANSWM INCWM** | **84,363** |
| Diffyg<br>(*ar sail amcangyfrif y gyllideb wreiddiol £82,237*) | 25,695 | Cyfraniad o Gronfeydd y Bwrdd | 25,695 |
| | | **CYFANSWM GWARIANT 2016-17** | **110,058** |
| | | Cronfeydd y Bwrdd – Gweddill Diwedd Blwyddyn 2016-17 | 64,031 |

## CAMAU GWEITHREDU A GYMERWYD GAN Y BWRDD DIOGELU I GYFLAWNI DEILLIANNAU PENODOL

I grynhoi, mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael blwyddyn ragweithiol a llwyddiannus iawn, sydd wedi arwain at y deilliannau canlynol:

- Datblygwyd **strwythur Bwrdd cydlynus**, gyda threfniadau llywodraethu trylwyr yn sylfaen iddo, sydd wedi cryfhau perthynas y Bwrdd Gweithredol â'i Grwpiau Gweithredol Lleol ac Is-grwpiau Rhanbarthol.

- Mae tystiolaeth o **ffocws strategol clir** trwy ddatblygiad cyd-flaenoriaethau strategol ar gyfer byrddau CYSUR a CWMPAS, fel yr amlinellir yn ei gynllun blynyddol a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2017.

- Bydd datblygu **fframwaith perfformiad a sicrhau ansawdd rhanbarthol** yn rhoi trosolwg mwy trylwyr i'r Bwrdd Gweithredol o weithgarwch a pherfformiad diogelu ar draws y rhanbarth dros y flwyddyn sydd i ddod.

- Sefydlwyd **hunaniaeth gadarn i'r Bwrdd**, sy'n adlewyrchu natur amrywiol cymunedau rhanbarth canolbarth a gorllewin Cymru, yn sgil datblygu brandio a logos y Bwrdd.

- Mae tystiolaeth o **ymrwymiad strategol cadarn** gan aelodau'r Bwrdd a'i bartneriaid, fel y'i gwelir yng nghyfraniad sylweddol pob aelod at y Bwrdd Diogelu eleni, ynghyd â'r gwaith a'r ymgysylltu ehangach a wnaed gyda phartneriaethau a sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol eraill.

- Datblygu **aliniad cadarn iawn rhwng Byrddau CYSUR a CWMPAS**, yn unol ag ysbryd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r agenda diogelu pob-oed.




- Mae tystiolaeth o **berthynas gadarnach, well, rhwng Bwrdd Gweithredol CYSUR a Bwrdd Iau CADW** a llwyfan cadarn fel y gall Bwrdd CWMPAS sy'n esblygu barhau i ddatblygu cysylltiadau agosach a chyfathrebu ag oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau a grwpiau cymunedol.

**Sir Benfro Gynhadledd iau Diogelu 2016:**

Sut I gadw'n ddiogel!